Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyheoddus cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth , 12 **Tachwedd 2019** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-11/19: Presennol
Cadeirydd : Cyng. Robert Cadwalader

Cyng. Eirwyn Williams; Cyng. Phil Jones; Cyng. Wayne Roberts; Cyng. Robert T Price; Cyng. Nan Davies-Hughes

Mr Cynan Jones ar gyfer eitem 10-11/19 a

Clerc – Dr Catrin Jones.

2-11/19 Ymddiheuriadau:

Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng. Dr Ian Rees; Cyng. William A Evans; Cyng. Dafydd Lloyd; Cyng. Angela Hughes; Cyng. Sian Williams

3-11/19: Datgan diddordeb

4-11/19 Cadarnhau cofnodion mis Medi 2019
Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

5-11/19 Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law'r Cadeirydd/Clerc)

Materion er gwybodaeth yn unig – ni chaniateir penderfyniadau

a. Roedd gwahoddiad cyhoeddus i fynychu sesiwn gan Gyfoeth Naturiol Cymru - er mwyn llunio Datganiad Ardal ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru - ar safle We'r Cyngor a Hwb Criccieth ac roedd angen cofrestru -Cynhelir yn Neuadd Goffa Criccieth dydd Mercher 27 Tachwedd 2019 10yb tan 2 yr hwyr.

b. Nodwyd bod Croeso Dolig Criccieth ar nos Iau 28 Tachwedd 2019

6-11/19: Gohebiaeth

a. Ymgynghoriad Blynyddol Drafft Adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2020 – 15 Hydref 2019
Roedd y drafft adroddiad wedi ei gylchredeg - yr unig newid oedd Penderfyniad 47 - gall cynghorau tref a chymuned dalu iawndal am golled ariannol i bob un o'u haelodau, lle mae colled o'r fath wedi ei hysgwyddo mewn gwirionedd o ganlyniad i fod yn bresennol i gyflawni dyletswydd gymeradwy: Hyd at £55 am bob cyfnod nad yw'n fwy na 4 awr a £111 am bob cyfnod sy'n fwy na 4 awr ond nad yw'n fwy na 24 awr

Penderfyniad:

Cyfeirio'r adroddiad i'r Pwyllgor Cyllid, Polisi a Rheolaethol ar gyfer ystyriaeth ar 27 Tachwedd 2019.

b. Cyngor Gwynedd – Meysydd Chwarae yn eich Tref -1 Tachwedd 2019
Roedd llythyr wedi ei gylchredeg yn son am gyfres o arbedion effeithiolrwydd pellach i wasanaethau ac maent yn holi i weld os oedd gan y Cyngor Tref diddordeb i gymryd cyfrifoldeb am y meysydd chwarae yn y dref: sef Golff Bach a Ty'n Rhos neu yn gwybod os byddai grwpiau cymunedol cofrestredig yn barod i ystyried cymryd cyfrifoldeb am reoli'r meysydd chwarae hyn.

Penderfyniad:
I ymateb i Gyngor Gwynedd i fynegi'r siom a'r consyrn a'i gwrthwynebiad i doriadau a allai effeithio meysydd chwarae plant yn y dref gan eu bod yn adnodd pwysig iawn i'r gymuned ar gyfer cymdeithasu ac yn annog teuluoedd i fod allan yn yr awyr agored. Maent yn cynnig cyfleoedd i ymarfer a datblygu sgiliau allweddol plant gan gynnwys elfennau ffisegol, emosiynol a chymdeithasol ac yn amlwg yn fuddsoddiad i genedlaethau'r dyfodol. Mae dysgu drwy chwarae yn bwysig - drwy wneud ffrindiau newydd, rhannu a rhyngweithio. Fodd bynnag roedd yn ormod o gyfrifoldeb i drosglwyddo'r meysydd chwarae i'r Cyngor Tref yn eu cyfanrwydd ac roedd angen mwy o wybodaeth am beth a olygir i weithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Gwynedd gan gynnwys yr oblygiadau cyllidol a chyfreithiol cyn ystyried ymhellach.

c. Cyfarfod Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Betsi Cadwalader – Medi 2019 – 14 Hydref 2019
Roedd yr adroddiad wedi ei gylchredeg

Penderfyniad:
Derbyn er gwybodaeth

d. BT – ymgynghoriad dileu ffonau talu cyhoeddus – 14 Hydref 2019
Roedd bwriadau BT i ddileu ffonau wedi ei gylchredeg – does dim un yn effeithio Criccieth

Penderfyniad:
Derbyn er gwybodaeth

e. Un Llais Cymru a Diwrnod VE – 15 Hydref 2019
Roedd y manylion wedi eu cylchredeg a nodwyd bod y Cyngor Tref eisoes wedi cytuno mewn egwyddor i gydweithio gyda'r Neuadd Goffa . Byddai modd ystyried gwneud cais am grant ar gyfer gweithgaredd i'r gymuned a hefyd ychwanegu at unrhyw grant fel rhan o gefnogaeth y Cyngor Tref i'r Neuadd Goffa.

Penderfyniad:
Cytuno i gydweithio gyda'r Neuadd Goffa drwy'r Cadeirydd a'r Clerc ac i gefnogi'r digwyddiad drwy nawdd ariannol i'w benderfynu eto. Dylid hefyd edrych am bosibiliadau ceisio am grant ar gyfer gweithgaredd i'r gymuned.

f. Canllawiau Lywodraeth Cymru ynghylch y ddyletswydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd - 23 Hydref 2019
Roedd adroddiad y Cyng Ken Lloyd o Gyngor Tref Caerfyrddin ar weithdy 'Reoli Llecynnau Gwyrdd ar gyfer Bioamrywiaeth' wedi ei gylchredeg.

Penderfyniad:

Derbyn er gwybodaeth - gan nodi bod camau gweithredu'r Cyngor yn cael ei baratoi yn dilyn trafodaeth yn y cyfarfod diwethaf. Roedd Un Llais Cymru wedi cylchredeg canllawiau ar gyfer hyn.

g. Ymgynghoriadau Cynllunio – 16 Hydref 2019
Roedd manylion ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru wedi ei chylchredeg.

Penderfyniad:
Derbyn er gwybodaeth

7-**11/19: Ceisiadau Cynllunio**

a. C19/0991/35/LL –Estyniad deulawr cefn: Ivy Cottage, Arfonia Criccieth, LL52 0BD

Penderfyniad:
Dim gwrthwynebiad

8-11/19: Awdit Allanol o gyfrifon y Cyngor Tref ar gyfer 2018-19

Roedd gohebiaeth y BDO wedi ei gylchredeg yn nodi ei bod wedi cwblhau'r archwiliad uchod ar 24 Medi 2019 a hefyd y ffurflen flynyddol ac adroddiad y BDO. Ar sail ei hadolygiad, yn ei barn nhw, roedd y wybodaeth yn y Ffurflen Flynyddol yn cydymffurfio ag arferion priodol ac nid oedd unrhyw faterion wedi dod i'w sylw a oedd yn peri pryder nad oedd deddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni. Yn unol â'r gofynion roedd y Clerc wedi postio'r rhybudd o ganlyniad yr archwiliad ar hysbysfwrdd y Cyngor Tref am gyfnod o 14 diwrnod a hefyd ar safle We'r Cyngor yn nodi bod hawl gan y cyhoedd i weld y wybodaeth. Roedd adroddiad y BDO yn cyfeirio at fan faterion er mwyn gwneud yn siŵr bod blychau gwag yn adran 1 y ffurflen flynyddol yn cael eu llenwi - ee gyda sero er mwyn cadarnhau nad oedd ffigurau yn y blychau. Hefyd roedd y BDO yn argymell i'r Cyngor weithredu ar argymhelliad yr archwilydd mewnol. Roedd yr argymhelliad yn cyfeirio at y daenlen incwm a gwariant sy'n rhestri'n unigol o dan bennawd cyfraniadau'r rhoddion a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn ac y dylid nodi o dan ba bwerau gwnaethpwyd y rhodd a p'run ai oedd yn wariant o dan adran 137 ai peidio. Roedd y Cyngor Tref wedi gweithredu ar hyn (Cofnod 9-05/19) ac wedi ychwanegu'r cyfeiriad i'r pŵer ar y daenlen. Roedd cofnodion y Cyngor Tref yn cofnodi'n glir o dan ba bwerau yr ystyriwyd y ceisiadau am roddion ac y gwnaethpwyd y rhodd. Yn ogystal roedd hyn wedi bod yn faen prawf ar gyfer archwiliad allanol cyfrifon 2017-18.

Penderfyniad:
Derbyniwyd a chymeradwywyd y ffurflen flynyddol a chytuno i weithredu ar y man faterion oedd wedi codi a nodwyd bod y Cyngor Tref eisoes wedi gweithredu ar argymhelliad yr archwilydd mewnol. Y Clerc i sgwennu at y BDO i gadarnhau hyn. Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith.

9-11/19: Cyfrif Banc y Cyngor Tref

Roedd llythyr wedi ei dderbyn yn cadarnhau bod yr HSBC yn ymchwilio i'r gwyn a hefyd e-bost wedi dod i gadarnhau bod y broses "safeguarding" dal heb gael ei orffen. Mae'n debyg bod yna oedi hir ar gyfer misoedd Gorffennaf ac Awst. Roedd system y banc wedi cynhyrchu llythyr yn dweud bod cyfrifon banc y Cyngor wedi eu cau ond nid oedd hyn yn wir yn dilyn cadarnhad gan gangen Porthmadog. Roedd y sefyllfa yn hollol anfoddhaol ac annerbyniol a gobeithio y bydd y sefyllfa wedi ei ddatrys yn fuan iawn.

Penderfyniad:
Derbyn yr adroddiad a nodi'r sefyllfa anfoddhaol y banc. Nodwyd bod hyn wedi cymryd amser maith i geisio datrys y sefyllfa.

10-11/19 Cynllun Cymunedol Criccieth – diweddariad

a. Strydoedd Unigryw

Gwahoddwyd Mr Cynan Jones i gyflwyno ei adroddiad ysgrifenedig a oedd wedi ei gylchredeg i aelodau gan gynnwys adroddiad ariannol boddhaol i gadarnhau bod y prosiect o fewn y gyllideb. Cafwyd achlysur llwyddiannus iawn a bywiog yn dadorchuddio cerflun Howard Bowcott ar thema cerdd Robert Graves y "Welsh Incident" ar y Maes ar 2 Dachwedd gan yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ac A.C. Llywodraeth Cymru a ddwedodd "*Prosiect yw hwn sydd yn cyfuno nifer o elfennau creadigol a diwylliannol pwysig iawn - sef cerflun wedi ei ysbrydoli gan gerdd yn seiliedig ar le penodol, sef Criccieth.".* -Roedd yn gaffaeliad mawr i Griccieth a hefyd llyfr Robert Cadwalader ar Siopau Criccieth. Byddai gwerthiant y llyfr yn sicrhau cynaladwyedd gweithgareddau i gefnogi'r Stryd Fawr.- cafwyd sylw Heno S4C i'r digwyddiad. Roedd sawl gwaddol ffisegol arall i'r prosiect yn ogystal â'r Cerflun a'r llyfr, sef y Pensiliau Lliw, Cerdd Gymraeg Twm Morys a'r cerfluniau yng Ngardd y Lion. Roedd y digwyddiad creadigol ym mis Awst yn llwyddiant mawr ac wedi denu 1,000 o bobl i Ardd y Lion ac o ganlyniad roedd y Stryd Fawr wedi bod yn brysur. Gwaddol anweledig a'r pwysicaf i'r prosiect oedd bwrlwm a gwaith caled y grŵp Busnes mewn cydweithrediad a'r Cyngor Tref a fydd yn sail i lawer mwy o weithgareddau a fydd i fudd i economi'r dref dros y blynyddoedd nesaf. - Nodwyd bod Criccieth yn ei Blodau wedi talu am ffwrdd o gerdd y Welsh Incident ar stesion Criccieth. Fodd bynnag e-bost gan Swyddog Cyngor Gwynedd yn holi cwestiynau am osodiad y cerflun - nid oedd wedi ymateb i gyfathrebu gan y Swyddog Prosiect. Roedd y Clerc wedi ymateb.

Penderfyniad:

Diolch yn fawr iawn i Mr Cynan Jones am yr adroddiad, i aelodau'r Fforwm Busnes ac i bawb a fu'n rhan o'r gwaith i sicrhau llwyddiant y prosiect arbennig yma mewn cydweithrediad gyda'r Cyngor Tref. Diolchwyd hefyd i'r Cadeirydd am ei waith yn paratoi'r llyfr.

b. Jet sgis

Dim byd i'w adrodd nôl eto - Clerc wedi sgwennu yn dilyn y cyfarfod diwethaf i ofyn iddynt drafod y mater ym Mhwyllgor Harbwr Porthmadog 9fed Hydref. Roedd bwriad i ddanfon copi o'r ddeiseb wedi'i arwyddo yn gofyn am wahardd jet sgis i Swyddog Gwynedd.

Penderfyniad:

Y Clerc i ysgrifennu at swyddog Cyngor Gwynedd i ofyn am ddiweddariad yn dilyn cyfarfod 9fed Hydref ac i holi am y mesurau bydd yn eu lle yn amserol ar gyfer y tymor nesaf. Dylid hefyd mynegi consyrn y Cyngor Tref bod Cyngor Gwynedd yn cael incwm sylweddol o'r trwyddedau ond nad oedd yn ymddangos bod buddsoddiad priodol yn y drefn o fonitro defnyddwyr y jet sgis er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd.

c. Tai Fforddiadwy

Aros am adroddiad

d. Astudiaeth Dichonoldeb Adeilad yr Hen Lyfrgell –

Adroddiad drafft wedi ei gylchredeg.

Penderfyniad:
Derbyn er gwybodaeth a rhoi amser tan y cyfarfod nesaf er mwyn rhoi cyfle i gasglu sylwadau ar y drafft adroddiad gan nodi eto bod angen datrys perchnogaeth yr adeilad gyda Chyngor Gwynedd cyn medru symud ymlaen i ystyried yr adroddiad. Gweler isod cofnod 11/11-19. Heb gytundeb cyfreithiol ar berchnogaeth yr adeilad, anodd fydd symud ymlaen gyda'r datblygiad yma.

e. Sioe Faciwîs ac Arddangosfa - Neuadd Goffa Criccieth - Sul y Cofio 2019
Nodwyd llwyddiant ysgubol y Neuadd Goffa ar achlysur Sul y Cofio – yn dilyn y gwasanaeth Cofio yn y bore roedd arddangosfa, ffilm a sioe gymunedol ar y Faciwis ddaeth i Griccieth 80 mlynedd yn ol o ganlyniad i'r Ail Rhyfel Byd a'r Neuadd Goffa yn llawn. Roedd yn dangos pwysigrwydd y Neuadd Goffa i gynnal digwyddiadau i'r gymuned diolch i nawdd gan Adra Tai a Grwp Cynefin a gwaith gwirfoddol gan nifer gan gynnwys y Starlight Players, y Spyders, U3A, Criccieth yn ei Blodau busensau a phreswylwyr y dref. Roedd gwaith penigamp gan Gwyneth Glyn a Twm Morys i greu sgript ddwyieithog a gwaith celf arbennig gan Ffion Gwyn a myfyrwyr Coleg Meirion-Dwyfor. Roedd Ysgol Treferthyr ac Ysgol Llanystumdwy hefyd wedi cymeryd ran.

Penderfyniad:
I longyfarch y Neuadd Goffa a phawb oedd ynghlwm ac i nodi parodrwydd y Cyngor Tref i ystyried cefnogaeth ariannol at gostau ychwanegol y sioe. Diolchwyd i'r Cadeirydd a'r Clerc am ei gwaith ar y prosiect.

11-11/19 Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a'r Llyfrgell

Derbyniwyd ymateb Cyngor Gwynedd yn cynnig "Tenancy at Will" i Gyngor Tref Criccieth mewn perthynas â'n defnydd o'r adeilad, er mwyn ffurfioli defnydd o'r adeilad yn y tymor byr. Hefyd gosod camau yn ei lle er mwyn medru hawlio bod y Cyngor Tref yn etifedd teilwng gan gynnwys penodi bargyfreithiwr ar amcangyfrif cost o £2,000.

Penderfyniad:

I ddilyn fyny gyda'r adran gyfreithiol oblygiadau'r "Tenancy at Will" a chytuno i dalu am fargyfreithiwr ac i rannu'r gost o hyn gyda Chyngor Gwynedd. Y Clerc i gyfleu penderfyniad y Cyngor Tref i'r cyfreithwyr.

12-11/19 Groynes ac Amddiffynfeydd Môr Criccieth

Cadarnhaodd y Cyng. Eirwyn Williams bod adroddiad gan Gyngor Gwynedd yn cael ei baratoi ac yn debygol o fod ar gael yn y Flwyddyn Newydd.

Penderfyniad:

Derbyn er gwybodaeth

13-11/19 Trafnidiaeth yng Nghriccieth – cwynion a digwyddiadau difrifol

Dim byd i'w adrodd - aros i weld sut oedd y drefn oedd Cyngor Gwynedd yn rhoi yn ei le yn gweithio ar gyfer arafu'r traffig i mewn i'r dref.

14-11/19 Torri gwair a gwrychoedd yn y dref

Dim byd i'w adrodd

15-11/19 Parcio yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd.

16-11/19 Torri coed yng Nghriccieth

Roedd y Cyngor Tref yn awyddus i gael cynllun ar gyfer plannu coed priodol yn y dref ac roedd hyn wedi ei nodi o dan y Cynllun Cymunedol. Roedd hyn yn cyd-fynd gyda dyletswydd y Cyngor Tref fel corff cyhoeddus i hybu bioamrywiaeth. Nodwyd gwaith ardderchog Ffrindiau Gardd Natur yn yr ardd wyllt a sut oeddynt yn gweithio gyda swyddog Cyngor Gwynedd i sicrhau gwaith priodol o ansawdd. Roedd y gwaith yma yn gaffaeliad mawr i'r gymuned.

Penderfyniad

Y Cyng. Phil Jones i gysylltu gyda'r Woodland Trust a hefyd arbenigwr i wneud arolwg o'r coed yng Nghriccieth. Y Clerc i sgwennu at Ffrindiau Gardd Natur i ddiolch iddynt am eu gwaith. Roedd y Cyngor Tref wedi sgwennu llythyr o gefnogaeth iddynt ar gyfer ymestyn trwydded y Grŵp er mwyn datblygu'r gwaith.

17-11/19 Meinciau Tref Criccieth

Nodwyd y gwaith da gan Criccieth yn ei Blodau i adfer cyflwr meinciau yn y dref a bod bil ychwanegol wedi cyrraedd ar gyfer deunydd i'w dalu.

Penderfyniad

Derbyn er gwybodaeth gan nodi bod y Clerc wedi ysgrifennu i ddiolch yn fawr iddynt am eu gwaith.

18-11/19 Llwybrau Cyhoeddus – gan gynnwys Llwybr 11

Aros am ymateb

Penderfyniad:.

Y Clerc i ysgrifennu eto at Swyddog Cyngor Gwynedd

19 -11/19 Derbyniadau

Dim

20-11/19: Taliadau

- Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol(PAYE) £34.09 (siec 101360)
- Cyflog y Clerc (Hydref) £755.66 (siec 101361)
- Costau Clerc (teithio) £9.90 (siec 101362)
- Cyngor Gwynedd (archwilio) £228.00 (siec 101363)
- Cyngor Gwynedd (toiledau) £6,000.00 (siec 101364)
- M Jones £70.95 (siec 101365)
- C & M Jones £1000.00 (siec 101366)*
- BHIB Ltd £16.93 (siec 101367)*

* Anfonebau wedi'u cyflwyno i'w talu yn dilyn cyhoeddi'r agenda.

Penderfyniad:

Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc i dalu'r biliau.

21-11/19: Materion caeedig (i aelodau'n unig)

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar **nos Fawrth 10 Rhagfyr 2019**.
Bydd y rhaglen yma yn cau **2 Rhagfyr 2019**